Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid

# Ceredigion

Arolygiaeth Prawf EF, Tachwedd 2024

# Cynnwys


**Rhagair** ... 3
**Sgoriau** ... 4
**Argymhellion** ... 5
**Cefndir** ... 6
**Parth un: Darpariaeth sefydliadol** ... 7
  **1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth** ... 7
  **1.2. Staff** ... 9
  **1.3. Partneriaethau a gwasanaethau** ... 11
  **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** ... 13
**Parth dau: Datrysiadau yn y llys** ... 16
**Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** ... 16
  **3.1. Asesiad** ... 16
  **3.2. Cynllunio** ... 18
  **3.3. Gweithredu a chyflawni** ... 19
  **3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys** ... 21
**4.1. Adsefydlu** ... 23
  **4.1. Polisi a darpariaeth adsefydlu** ... 23
**Rhagor o wybodaeth** ... 24



**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Caren Jones, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.


**Rôl Arolygiaeth Prawf EF**

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.


**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-74-9



**© Hawlfraint y Goron 2024**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

## Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu a sgorio gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac atal (GCIA Ceredigion) mewn dau faes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Yn gyffredinol, mae GCIA Ceredigion yn cael sgôr 'Annigonol'. Er i ni arolygu ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, oherwydd y nifer isel o achosion, nid ydym wedi rhoi sgôr ar gyfer y maes gwaith hwn. Fe wnaethom hefyd arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu, ac ni chafodd ei sgorio oherwydd nad oedd unrhyw achosion adsefydlu o fewn yr amserlen a gwmpesir gan yr arolygiad.


Yng Ngheredigion, mae'r sylfeini sylfaenol sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid effeithiol i blant a dioddefwyr, ar goll. Canfuom bryderon sylweddol o ran llywodraethu ac arweinyddiaeth, trefniadau staffio, partneriaethau a gwasanaethau, a gwybodaeth a chyfleusterau. Mae hyn wedi cyfrannu at fethiannau systemig wrth asesu, cynllunio a chyflawni'r gwaith o hyrwyddo ymataliad ac i gadw plant a phobl eraill yn ddiogel.

Mae angen cryn ddatblygu ar y trefniadau llywodraethu. Nid yw bwrdd rheoli'r GCIA yn llywio'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth. Nid oes cysylltiad gyda'r tîm, gwirfoddolwyr a'r plant, a cheir bwlch rhwng arferion gweithredol a threfniadau strategol. Mae rhwystrau casglu a dadansoddi data yn golygu nad yw'r GCIA na'r bwrdd yn deall proffil y plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth, neu os yw'r gwaith gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr yn effeithiol. Nid oes polisïau, prosesau a chytundebau cydweithio hanfodol ar waith, ac mae hyn yn golygu bod y diffyg eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau yn waeth.

Nid yw trefniadau partneriaeth yn cefnogi'r broses o weithio'n effeithiol gyda phlant. Nid yw'r GCIA yn elwa o drefniadau secondio gyda gwasanaethau iechyd, addysg, neu wasanaethau prawf. Nid yw'r llwybrau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol allweddol yn cael eu ffurfioli na'u monitro gan y bwrdd, sy'n golygu nad yw anghenion plant wastad yn cael eu nodi neu eu cefnogi.

Yn weithredol, mae'r tîm sy'n gyfrifol am waith ar ôl bod yn y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys, yn cynnwys un rheolwr achos, ymarferydd adferol, cydlynydd gwirfoddol, ac uwch ymarferydd. Mae staff yn ceisio darparu'r ystod lawn o wasanaethau sydd ei hangen ar wasanaeth cyfiawnder ieuenctid i weithredu'n effeithiol, a hynny'n annibynnol gan fwyaf. Mae gan reolwr y tîm a phennaeth y gwasanaeth gyfrifoldebau am y GCIA a thimau ychwanegol. Gwelsom reolwyr a staff ymroddedig, wedi'u cymell i wneud eu gorau dros blant, ond mae rhychwant eang eu cyfrifoldebau a'u rolau deuol wedi gwanhau'r arbenigedd cyfiawnder ieuenctid sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant a dioddefwyr. Mae angen datblygu prosesau sicrhau ansawdd ar frys i wneud yn siŵr bod gwaith achos yn effeithiol wrth gadw plant ac eraill rhag niwed.

Mae canfyddiadau siomedig yr arolygiad hwn yn golygu bod angen gweithredu ar unwaith a chawn ein cysuro gan ymateb uwch arweinwyr Ceredigion i ymrwymo adnoddau ychwanegol i flaenoriaethu cynnydd yn erbyn argymhellion ein harolygiad. Byddwn yn monitro'r cynnydd hwnnw.



**Martin Jones CBE**
Prif Arolygydd Prawf EF

# Sgoriau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion**<br>Dechreuodd y gwaith maes ym mis Gorffennaf 2024 | | **Sgôr** | **1/24** |
| **Sgôr gyffredinol** | | **Annigonol** | 🔴 |
| 1. | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Annigonol** | 🔴 |
| 1.2 | Staff | **Angen gwella** | 🟠 |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Annigonol** | 🔴 |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Annigonol** | 🔴 |
| 2. | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesiad | **Heb gael sgôr** | |
| 2.2 | Cynllunio | **Heb gael sgôr** | |
| 2.3 | Gweithredu a chyflawni | **Heb gael sgôr** | |
| 2.4 | Adolygu | **Heb gael sgôr** | |
| 3. | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesiad | **Annigonol** | 🔴 |
| 3.2 | Cynllunio | **Annigonol** | 🔴 |
| 3.3 | Gweithredu a chyflawni | **Annigonol** | 🔴 |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys | **Annigonol** | 🔴 |
| 4. | **Adsefydlu**[1] | | |
| 4.1 | Polisi a darpariaeth adsefydlu | **Heb gael sgôr** | |

[1] Nid yw'r sgôr Adsefydlu yn effeithio ar sgôr gyffredinol y GCI.

# Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud 11 o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith bositif ar ansawdd gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac atal yng Ngheredigion. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion wneud y canlynol:**

1. blaenoriaethu cynnydd effeithiol yn erbyn cynllun gweithredu'r bwrdd rheoli ac ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau gweithredol mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolygiad
2. sicrhau ei fod yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y GCIA drwy gael gweledigaeth glir sy'n cael ei chyfathrebu i randdeiliaid allweddol, staff a gwirfoddolwyr
3. deall gofynion statudol partneriaeth cyfiawnder ieuenctid a sicrhau bod mecanweithiau ar waith i ddwyn y bartneriaeth i gyfrif am ddyrannu adnoddau i'r gwasanaeth
4. creu prosesau dadansoddi data i hybu dealltwriaeth o broffil plant, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu mecanweithiau effeithiol i grisialu, dadansoddi a lliniaru yn erbyn anghymesuredd a gor-gynrychiolaeth yn y gwasanaeth
5. rhoi'r adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i dîm arweinyddiaeth y GCIA i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau swyddog gwybodaeth, ac adolygu swydd y rheolwr achos absennol a rôl y gweithiwr dioddefwyr
6. datblygu cysylltiad gyda thîm staff GCIA, gwirfoddolwyr, a phlant a'u rhieni neu ofalwyr.

**Dylai Tîm Arweinyddiaeth GCIA Ceredigion wneud y canlynol:**

7. datblygu proses sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth reoli ar frys er mwyn sicrhau bod y gwaith asesu, cynllunio a chyflawni yn ddigonol i gadw plant ac eraill yn ddiogel
8. datblygu protocolau, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cydweithio a fydd yn galluogi staff y GCIA i gyflawni gwaith o ansawdd uchel
9. adolygu'r adnoddau ar gyfer gwaith achos, gwaith dioddefwyr a gwaith gwneud iawn i sicrhau bod gan staff ddigon o gapasiti i gyflawni eu rolau i safon gyson uchel
10. sicrhau bod yr holl staff ac arweinwyr yn ailosod ac yn diweddaru eu gwybodaeth o ddulliau cyfiawnder ieuenctid cyfoes, ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella ansawdd a goruchwyliaeth o'r gwaith achos
11. adolygu fformat panel gwneud penderfyniadau'r ganolfan fel bod ganddo'r mewnbwn perthnasol, wrth yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol angenrheidiol, i sicrhau bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn diwallu anghenion y plentyn.

# Cefndir

Gwnaethom waith maes yng Ngheredigion dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 29 Gorffennaf 2024. Fe wnaethom archwilio naw datrysiad y tu allan i'r llys a gafodd eu cyflawni rhwng 31 Gorffennaf 2023 a 24 Mai 2024 a thri achos llys a oedd o fewn meini prawf yr arolygiad. Roedd y nifer hwn yn rhy isel i'w sgorio. Ni chafwyd unrhyw achosion adsefydlu o fewn yr amserlenni perthnasol i arolygwyr eu harolygu. Cynhaliwyd naw cyfweliad gyda rheolwyr achos.

Mae Ceredigion wedi'i lleoli yng Nghanolbarth Cymru, ar y ffin â Gwynedd, Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Ceredigion yw'r bedwaredd sir fwyaf yng Nghymru sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang, ond dyma'r ail sir leiaf o ran poblogaeth. Mae ei natur wledig yn ffactor arwyddocaol o ran demograffeg Ceredigion, gyda 59 y cant o'r boblogaeth yn byw yn y trefi lleiaf, pentrefi a chefn gwlad. Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod 45 y cant o drigolion Ceredigion yn siarad Cymraeg.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu model Drwy Gydol Oes o ran darparu gwasanaethau. Mae'r model gwasanaethau integredig yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, gyda'r nod o leihau nifer y plant ac oedolion sydd angen gwasanaethau acíwt neu statudol.

Yn 2020, arolygwyd y gwasanaeth a oedd yn gwneud gwaith yn y llys, datrysiadau y tu allan i'r llys, ac atal. Arweiniodd hyn at wahanu'r ddarpariaeth yn ddau faes cymorth. Mae'r tîm sy'n darparu'r ddarpariaeth ar ôl y llys a thu allan i'r llys (y Ganolfan) ar hyn o bryd o fewn adran Gofal a Gynlluniwyd Porth Cynnal, sy'n canolbwyntio ar wasanaeth gofal arbenigol a chymhleth. Mae'r gwasanaeth ieuenctid, gan gynnwys yr holl waith atal cyffredinol a'r gwaith atal sydd wedi'i dargedu i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu, yn rhan o'r Porth Cymorth Cynnar. Mae'r awdurdod lleol wedi gofyn i ni gyfeirio at y gwasanaeth a arolygwyd fel y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac atal (GCIA), i adlewyrchu model o gymorth di-dor rhwng cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid. Yn ymarferol, canfu arolygwyr ddull digyswllt o gefnogi plant, gyda chyfleoedd coll i ddefnyddio'r ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid sylweddol er mwyn llywio strategaethau i gynllunio ymyriadau ac ymadael.

Heddlu Dyfed Powys (HDP) sy'n cwmpasu ardal y GCIA. Mae gan y GCIA gysylltiadau â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) gyda chynrychiolydd yn mynychu'r bwrdd rheoli.

Mae'r cynllun cyfiawnder ieuenctid ar gyfer 2024/2025 yn nodi bod y gwasanaeth wedi derbyn 78 o atgyfeiriadau rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Adeg cyhoeddi'r arolygiad, roedd gan y gwasanaeth 17 o achosion ar agor, sef dau orchymyn llys a 15 datrysiad y tu allan i'r llys. Nid yw cofnodi a chasglu data wedi'i ddatblygu'n ddigonol o fewn y GCIA; serch hynny, mae'r cynllun cyfiawnder ieuenctid yn nodi canlyniadau carcharu anghymesur ymhlith plant Du, Asiaidd a phlant o dreftadaeth gymysg.

Yng Ngheredigion, daethom o hyd i naratif cyffredin bod y tîm statudol a thu allan i'r llys yn wasanaeth bach, sy'n gweithio gyda nifer fach o blant a dioddefwyr. Mae gwendidau ac anghenion cymhleth plant yn y maes cyfiawnder ieuenctid yn cael eu hanghofio ac mae proffil a hunaniaeth y gwasanaeth wedi mynd ar goll o fewn yr awdurdod lleol a threfniadau partneriaethau statudol.

# Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu darpariaeth sefydliadol, roeddem wedi adolygu tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ymlaen llaw gan y GCI ac wedi cynnal 13 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff y bartneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

## 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae llywodraethiant ac arweinyddiaeth GCI yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r broses o ddarparu gwasanaeth ymatebol o safon uchel i bob plentyn. | Annigonol |

**Cryfderau:**

- Mae bwrdd rheoli ac uwch dîm arweinyddiaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal (GCIA) yn gallu gweld y gwaith sylweddol a brys sydd ei angen i ddatblygu eu trefniadau llywodraethu. Roedd uwch arweinwyr yn ymatebol i bryderon a dangoswyd ymrwymiad i ddarparu adnoddau ychwanegol i sicrhau cynnydd yn erbyn canfyddiadau'r arolygiad.
- Adolygwyd fformat ac agenda cyfarfodydd y bwrdd rheoli. Ceir pwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd y broses gynefino a phecyn manwl diwygiedig ar gyfer aelodau newydd.
- Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys ystod o bartneriaid statudol ac anstatudol, sy'n ddigon uchel i gael effaith ar newid positif.
- Mae presenoldeb yn y bwrdd yn gryfder a cheir cyfle i ailfywiogi ymgysylltiad ac egni fel ffordd o lywio trefniadau llywodraethu'r GCIA.
- Cynhaliodd y bwrdd ddiwrnod datblygu, gyda chymorth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, i helpu aelodau ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

**Meysydd i'w gwella:**

- Canfu arolygwyr sefydliad â dull digyswllt tuag at drefniadau llywodraethu, gyda rolau a chyfrifoldebau aneglur, gan arwain at blant yn colli cyfleoedd i gael mynediad at ddarpariaeth. Mae angen i fwrdd rheoli GCIA sefydlu ei swyddogaeth graidd a chodi proffil y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol a'r bartneriaeth ehangach.
- Mae angen i'r bwrdd adolygu ar frys adnoddau, capasiti, a rhychwantau cyfrifoldebau ymhlith arweinwyr GCIA a thimau staff i gefnogi'r broses o ddarparu gwaith effeithiol gyda phlant a dioddefwyr.
- Nid yw aelodau'r Bwrdd wedi llywio na chyfrannu at y cynllun cyfiawnder ieuenctid. Dylai aelodau'r bwrdd bennu ac adolygu gweledigaeth a strategaeth y GCIA yn rheolaidd.
- Nid oes gan y GCIA ac aelodau'r bwrdd fynediad at y data a'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall perfformiad y gwasanaeth. Mae diffyg data yn creu rhwystr

systemig i weithgarwch dadansoddi a gwerthuso. Ceir ymrwymiad i flaenoriaethu recriwtio swyddog gwybodaeth i ddatblygu'r systemau cofnodi data ac adrodd.

- Nid oes unrhyw systemau neu brosesau ar waith i olrhain, dadansoddi a monitro anghymesuredd.
- Mae'r cynllun cyfiawnder ieuenctid yn manylu ar y ffaith bod 45 y cant o boblogaeth Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg, y trydydd mwyaf yn genedlaethol; serch hynny, ceir diffyg pwyslais strategol ar ddarparu gwasanaethau yn eu dewis iaith.
- Nid yw trefniadau partneriaeth y GCIA yn hwyluso'r broses o gyflawni gwaith gweithredol yn effeithiol. Mae cynllun gweithredu'r GCIA yn nodi'r angen i asiantaethau partner ddarparu'r cymorth priodol i'r gwasanaeth, a chaiff hyn ei sgorio'n anghyflawn. Yn ystod y gwaith maes, canfuwyd dealltwriaeth annatblygedig o ofynion statudol y bartneriaeth, a dryswch o ran trefniadau secondio, swyddi gwag, adnoddau a llwybrau i gael mynediad at wasanaethau.
- Gyda'i gilydd, nid oes gan y bwrdd y proffil dyrchafedig sydd ei angen i sicrhau ei fod wedi'i gysylltu'n ddigonol â fforymau strategol allweddol eraill ar draws yr awdurdod lleol neu drefniadau rhanbarthol ehangach.
- Cafodd cynllun gweithredu'r bwrdd rheoli ei greu ym mis Ionawr 2024 a'i gadarnhau gan y bwrdd ym mis Ebrill 2024. Rhaid i'r bwrdd gymryd cyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod cynnydd prydlon yn cael ei wneud yn erbyn yr amcanion, a bod aelodau'r bwrdd yn dwyn ei gilydd i gyfrif. Canfu arolygwyr bod gan arolygiadau olwg or-optimistaidd o ran cynnydd.
- Mae angen adolygu meysydd cyfrifoldeb tîm arweinyddiaeth y GCIA, er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ysgogi'r gwelliant brys ar gyfer gwaith achos ac arferion cyfiawnder ieuenctid craidd. Mae angen i'r bwrdd gael goruchwyliaeth o'r gwaith a wneir gyda phlant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr, a chael sicrwydd bod trefniadau gweithredol yn hyrwyddo ymataliad yn ddigonol ac yn cadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel.
- Mae'r cysylltiad rhwng timau a'r bwrdd rheoli ar goll. Nid yw'r bwrdd rheoli yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n effeithio ar arferion gweithredol, ac ni chyfeirir at staff yng ngweithgarwch y bwrdd strategol.
- Nid yw lleisiau a safbwyntiau plant, rhieni neu ofalwyr, a dioddefwyr yn cael eu hymgorffori'n effeithiol o ran pennu ac adolygu'r weledigaeth a'r strategaeth.
- Nid yw tîm arweinyddiaeth y GCIA yn adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd am lesiant staff, trefniadau goruchwylio, anghenion hyfforddi, sicrhau ansawdd, a chapasiti'r tîm i ddarparu gwasanaethau i blant.
- Nid yw'r bwrdd yn cael gwybod am achosion o ddigwyddiadau difrifol. Mae angen i'r rhain gael eu rhannu gyda'r bwrdd yn brydlon ac mae angen i'r bwrdd oruchwylio adolygiadau dysgu ffurfiol.
- Mae diffyg cofrestr risg effeithiol yn llesteirio gallu'r bwrdd i nodi, monitro, gwneud cynnydd a lliniaru risgiau posib. Nid yw'r trefniadau llywodraethu wedi gweithredu ar risgiau sylfaenol, fel swydd y rheolwr achos sydd wedi bod yn wag o fewn y tîm ers tro, diffyg swyddog gwybodaeth, y gwrthdaro sy'n gysylltiedig â rolau deuol, gofynion partneriaeth statudol, absenoldeb polisïau a gweithdrefnau, a diffyg data i lywio'r broses ddadansoddi a gwerthuso.

## 1.2. Staff

| Mae staff y GCI wedi’u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Angen gwella |
|---|---|

**Cryfderau:**

- Mae staff yn ymroddedig, yn ymroddgar ac yn angerddol am eu gwaith gyda phlant. Canfu arolygwyr fod staff yn fyfyriol ac yn awyddus i ddysgu fel ffordd o wella canlyniadau ar gyfer plant.
- Dylid canmol staff am eu positifrwydd a'u gallu i addasu wrth ddarparu gwasanaethau i blant o fewn cyd-destun galwadau cystadleuol ac adnoddau prin.
- Mae recriwtio, hyfforddi, a chefnogaeth barhaus gwirfoddolwyr yn drawiadol. Mae gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant helaeth i gymryd rhan mewn paneli gorchmynion atgyfeirio, panel gwneud penderfyniadau'r ganolfan, a chymorth priodol i oedolion.
- Dywedodd staff fod goruchwyliaeth yn digwydd yn aml ac yn cydbwyso trafodaethau am reoli achosion gyda phwyslais ar les. Disgrifir rheolwyr fel rhai hygyrch y mae’n hawdd troi atynt.
- Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd a chânt eu croesawu fel fforwm ar gyfer cael cefnogaeth gan gyfoedion.
- Caiff cyfleoedd i ymgysylltu â chyrsiau academaidd eu cefnogi, gydag enghreifftiau o ymarferwyr yn rhan o gymhwyster gwaith cymdeithasol a’r Dystysgrif Arferion Effeithiol ym maes Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ymarferwyr yn cefnogi lleoliadau myfyrwyr fel ffordd o ddarparu cyfleoedd dysgu ymarferol.
- Mae ymarferwyr wedi’u hariannu i gymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg.
- Caiff anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau unigol eu hystyried yn dda, ac mae staff, gwirfoddolwyr ac arweinwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ei gilydd a’r sefydliad.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo’n ddiogel wrth ymgymryd â’u gwaith.

**Meysydd i’w gwella:**

- Cyn 2020, roedd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid statudol, y tu allan i’r llys, ac ataliol yn cael eu darparu gan dîm unedig. Arweiniodd ailstrwythuro at greu dau dîm, gydag un yn canolbwyntio ar elfennau statudol a thu allan i’r llys ym maes cyfiawnder ieuenctid, a’r llall ar wasanaethau atal cyffredinol a gwasanaethau atal wedi'u targedu. Mae’r tîm sy’n darparu gwasanaethau statudol a thu allan i’r llys yn cynnwys un rheolwr achos, ymarferydd adferol, cydlynydd gwirfoddol, ac uwch ymarferydd. Mae gan reolwr y tîm rôl ddeuol, gyda goruchwyliaeth am y GCI a’r rhai sy’n gadael gofal. Mae gan bennaeth y gwasanaeth feysydd o gyfrifoldeb helaeth ar draws gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio. Canfu'r arolygwyr nad oedd y rhychwantau cyfrifoldeb, ar gyfer arweinwyr a staff, yn ffafriol i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant a dioddefwyr. Mae angen arolygiad o gapasiti ac adnoddau ar frys.

- Nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn effeithiol wrth wneud yn siŵr bod gwaith achos yn hyrwyddo ymataliad yn ddigonol ac yn cadw plant ac eraill yn ddiogel.
- Mae diffyg rôl benodol i weithiwr dioddefwyr wedi arwain at ymarferwyr yn cefnogi'r plentyn a'r person sydd wedi'i niweidio. Nid oes unrhyw gymorth neu oruchwyliaeth arbenigol i liniaru effaith y rolau hyn a allai wrthdaro â'i gilydd.
- Mae diffyg dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn arwain at ddull ad hoc o nodi a chanfod cyfleoedd hyfforddi hollbwysig.
- Cyfleoedd prin a gafodd arweinwyr a staff i ddiweddaru eu gwybodaeth am arferion cyfoes ym maes cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys egwyddorion plant yn gyntaf, damcaniaeth ymatal a dulliau sy'n ystyriol o drawma.
- Roedd diffyg adnoddau sgrinio yn rhwystr i nodi anghenion plant. Nid oedd gwendidau plant yn cael eu deall yng nghyd-destun eu profiadau bywyd. Mae angen deall ffactorau fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma, ac effaith niwed y tu allan i'r teulu yn gyson fel ffordd o gadw plant yn ddiogel.
- Mae diffyg gweithwyr arbenigol yn arwain at fylchau sylweddol mewn gwybodaeth. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion dysgu ychwanegol, camfanteisio, a'r rhyngwyneb rhwng y GCI a'r gwasanaethau prawf.
- Mae rhychwant cyfrifoldebau ymarferwyr yn cyfyngu ar gyfleoedd am arferion a dysgu myfyriol.
- Nid oes goruchwyliaeth glinigol ar gael.
- Ni roddir cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr gael mewnbwn i'r cynllun GCI.
- Nid oes unrhyw wytnwch yn y tîm ar gyfer absenoldebau a gafodd eu cynllunio ac absenoldebau na chafodd eu cynllunio.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Annigonol |

**Cryfderau:**

- Cynorthwyir y berthynas rhwng y GCIA a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol gan strwythurau rheoli sy'n cael eu rhannu. Mae'r GCIA yn cael ei wahodd yn rheolaidd i drafodaethau am y strategaeth gofal cymdeithasol a chyfarfodydd am ofal a chymorth ac amddiffyn plant. Mae gweithwyr cymdeithasol yn mynychu cyfarfodydd rheoli risg uchel o dan arweiniad y GCIA.
- Mae nyrs cyswllt ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd misol gyda'r GCI a gall gynnig cymorth uniongyrchol i blant sy'n ymgyflwyno ag anghenion iechyd lefel is nas diwallwyd. Gall y nyrs atgyfeirio'r plentyn at wasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a chynnig cymorth gyda chyfeirio at wasanaethau iechyd cyffredinol. Edrychodd arolygwyr ar gofnodion achos un plentyn â CAMHS arbenigol.
- Mae swyddog yr heddlu sy'n gysylltiedig â'r GCI yn ymgymryd ag amrywiaeth o rolau, gan gynnwys ymgynghori â swyddogion arestio, brysbennu atgyfeiriadau, mynychu paneli penderfyniadau'r ganolfan, cyhoeddi datrysiadau y tu allan i'r llys, mynychu cyfarfodydd risg, a chynnal gwiriadau cudd-wybodaeth. Mae'r GCIA a'r heddlu o'r farn bod y bartneriaeth yn gweithio'n bositif.
- Mae gan y gwasanaeth ieuenctid adnoddau da ac mae'n cynnig ystod eang o ddarpariaeth gyffredinol a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant sydd mewn perygl o droseddu. Mae'r fenter Cefnogi Pobl Ifanc yn eu Harddegau yn y Gymuned yn fodel fframwaith ar y cyd i gefnogi plant sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan arwain at gyflwyno ymyriadau sy'n canolbwyntio ar linellau cyffuriau, camfanteisio, meithrin perthynas amhriodol, camddefnyddio sylweddau, a pherthnasoedd ymhlith cyfoedion. Mae'r defnydd o bensetiau VR yn anelu at godi gwybodaeth a dealltwriaeth o drawma a chamfanteisio.
- Mae llwybrau atgyfeirio ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cael eu deall a'u defnyddio.
- Gwelodd arolygwyr berthnasoedd sefydledig a phositif ymhlith unigolion yn y bartneriaeth. Mae angen ffurfioli hyn drwy lwybrau a phrosesau sydd wedi'u dogfennu.

**Meysydd i'w gwella:**

- Yn ddeddfwriaethol, bwriedir i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid fod yn aml-asiantaethol, i sicrhau bod y plant mwyaf bregus a'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Canfuwyd bylchau sylweddol yn y bartneriaeth statudol a diffyg gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau a gomisiynir i gefnogi ymataliad, hyrwyddo diogelwch a lles, a chadw pobl eraill yn ddiogel.
- Mae cytundebau sydd wedi dyddio wedi cyfrannu at ddealltwriaeth anghyson o'r broses o ddyrannu adnoddau a threfniadau secondio.
- Mae absenoldeb casglu a dadansoddi data holistig yn golygu nad yw'r bartneriaeth yn deall proffil plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth. Mae angen i'r bartneriaeth wella'r

ffordd y mae'n casglu ac yn dadansoddi data ar frys i lywio dull strategol o ddatblygu'r ymyriadau a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ar gyfer plant. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o anghymesuredd a gor-gynrychiolaeth ymhlith y garfan.

- Nid yw prosesau rheoli risg a diogelwch yn effeithiol wrth gadw plant a phobl eraill yn ddiogel. Mae angen cefnogaeth a mewnbwn cyson gan bartneriaid i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u deall, a bod cyfrifoldeb ar y cyd i reoli'r rhain.
- Mae diffyg arbenigwyr iechyd, addysg a phrawf ar secondiad yn arwain at fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir i blant ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar lwyth gwaith ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid.
- Nid yw gwaith gyda dioddefwyr yn cael ei ystyried yn rôl arbenigol. Mae rheolwyr achos y GCI yn gweithio gyda phlant a'r person a niweidiwyd ar yr un pryd. Mae angen arolygiad o'r gwaith gyda dioddefwyr.
- Mae diffyg adnodd sgrinio ar gamfanteisio yn arwain at orddibyniaeth ar bersbectif unigol yn hytrach na chyd-ddealltwriaeth o'r dangosyddion niwed y tu allan i'r teulu.
- Nid yw'r GCIA yn gallu atgyfeirio'n uniongyrchol am asesiadau a chymorth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu niwroamrywiaeth.
- Y llwybr partneriaeth ar gyfer asesiadau ymddygiad rhywiol niweidiol yw drwy'r GCIA. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw un o ymarferwyr y GCIA wedi cwblhau Hyfforddiant prosiect Asesu, Ymyrraeth a Symud Ymlaen 3 (AIM 3). Cafwyd hyd i hyfforddiant, ond mae amheuaeth ynghylch y gallu i gynnig y ddarpariaeth ar draws yr awdurdod.
- Nid yw atgyfeiriadau rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r GCI yn cael eu monitro'n effeithiol i sicrhau bod gan blant fynediad at ystod o wasanaethau i gefnogi ymataliad. Canfu arolygwyr gyfleoedd coll i ddefnyddio darpariaeth y gwasanaeth ieuenctid ar gyfer gweithgarwch cynllunio i ymadael.
- Nododd y bartneriaeth fylchau i gefnogi plant o dan ymchwiliad neu blant sy'n amodol ar amodau mechnïaeth.
- Nid yw llwybrau a phrosesau atgyfeirio at wasanaethau partneriaeth wedi'u ffurfioli. Canfu arolygwyr ddealltwriaeth anghyson o argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau.
- Nid oes unrhyw systemau i adolygu na gwerthuso addasrwydd, defnydd nac effeithiolrwydd gwasanaethau, a cheir gorddibyniaeth ar wybodaeth anecdotaidd.
- Mae argaeledd prosesau gwneud iawn yn dibynnu ar gapasiti rheolwyr achos i ganfod a darparu prosiectau. Nid yw gweithgarwch gwneud iawn wedi'i achredu.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Annigonol |

**Cryfderau:**

- Mae'r GCIA yn cydnabod effaith natur wledig ar hygyrchedd gwasanaethau i blant. Mae ymarferwyr yn ymatebol yn eu hagwedd at weld plant o fewn eu hardal ac mewn mannau lle maent yn teimlo'n ddiogel.
- Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth ymgymryd â'u gwaith. Caiff polisïau a threfniadau corfforaethol gweithio'n annibynnol eu deall.
- Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn sicrhau y gall staff weithio'n effeithiol o swyddfeydd ac o ganolfannau o bell.
- Mae gan ymarferwyr y GCIA fynediad at systemau gofal cymdeithasol i blant, ac mae gan y gwasanaeth ieuenctid fynediad llawn at system rheoli achosion y GCIA i blant.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae angen brys ar brosesau sicrhau ansawdd ar gyfer pob gwaith achos i sicrhau bod diogelwch plant, dioddefwyr a'r cyhoedd yn cael ei flaenoriaethu.
- Mae'r defnydd o ddata a gwybodaeth i fonitro a gwella gwasanaethau yn brin iawn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ymarferwyr a rheolwyr wedi llenwi bwlch swyddog gwybodaeth arbenigol, gan arwain yn aml at gasglu data â llaw. Mae'r GCIA wedi ymrwymo i recriwtio swyddog gwybodaeth.
- Nid oes gan y GCIA y polisïau angenrheidiol i lywio proses effeithiol o ddarparu gwasanaethau. Mae angen diweddaru polisïau i adlewyrchu arferion cyfoes ym maes cyfiawnder ieuenctid ac ystyriaethau amrywiaeth, sy'n benodol i ddemograffeg a thueddiadau yng Ngheredigion. Cadarnhaodd y GCIA brinder polisïau a ganolbwyntiodd ar reoli risg a diogelwch, dioddefwyr, amrywiaeth ac anghymesuredd a sicrhau ansawdd.
- Mae'r polisïau datrysiadau y tu allan i'r llys a'r polisïau adsefydlu mewn fformat drafft ac wedi'u creu'n annibynnol ar bartneriaid statudol allweddol.
- Mae angen i'r bwrdd rheoli ysgogi'r gwaith o adolygu a chraffu ar bolisïau'r GCIA, gan sicrhau bod ei oruchwyliaeth yn dwyn y bartneriaeth i gyfrif am ei waith wrth weithredu'r prosesau. Mae creu ac adolygu polisïau wedi bod yn gam gweithredu i'r bwrdd rheoli ers 18 mis, ond nid yw hyn wedi arwain at bolisïau'n cael eu trafod neu eu cyflwyno i'r bwrdd.
- Mae cyfyngiadau ar gasglu a dadansoddi data wedi creu rhwystrau o ran gwerthuso a dysgu. Mae diffyg proses ar waith i sicrhau bod y GCIA yn dysgu wrth bethau nad ydynt yn mynd ar y trywydd iawn. Ni hysbysir y bwrdd rheoli am ddigwyddiadau difrifol mewn ffordd brydlon ac nid yw adolygiadau dysgu yn cael eu blaenoriaethu.
- Mae cytundebau lefel gwasanaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth gydag asiantaethau partner wedi dyddio.

- Nid yw safbwyntiau plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu casglu a'u dadansoddi'n ffurfiol i lywio darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol.

## Cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr

Mae gan GCIA Ceredigion staff a gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n dangos gofal gwirioneddol tuag at eu gwaith ac am gefnogi plant a'u rhieni neu ofalwyr. Mae gan Awdurdod Lleol Ceredigion sawl fforwm cynnwys plant sydd wedi ennill ei blwyf, ond mae angen datblygu mecanweithiau i gasglu a dadansoddi adborth yn ffurfiol gan y rhai sy'n gweithio gyda'r GCIA. Mae'r bwrdd rheoli wedi dechrau trafod astudiaethau achos unigol a chaiff ei gydnabod bod angen gwneud gwaith i glywed llais y plentyn yn ystyrlon mewn cyfarfodydd bwrdd.

Cysylltodd y GCIA, ar ein rhan, â phlant oedd ag achosion ar agor adeg yr arolygiad, i gael eu caniatâd i gwblhau arolwg testun. Cyflwynwyd yr arolwg yn annibynnol i'r pum plentyn a'r rhieni a roddodd ganiatâd, ac atebodd un rhiant. Siaradwyd hefyd â dau blentyn a rhiant i ddeall eu profiadau o weithio gyda'r GCIA. Nododd adborth gan blant a rhieni eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu gweithwyr yn y GCIA, a theimlodd pawb a ymatebodd fod gan staff y sgiliau cywir i ymgysylltu â phlant.

Dywedodd y plant:

> *"Roedd fy ngweithiwr yn wych ac yn oddefgar."*

> *"Fe wnaethon nhw weithio gyda fi mewn ffordd glir ac agored."*

Ac ychwanegodd rhiant:

> *"[GOLYGWYD] yn broffesiynol, hawdd troi atyn nhw ac yn barod eu cymwynas. Roedden nhw'n ddymunol ac yn hawdd dod ymlaen gyda nhw. Mae hynny'n berthnasol i fi fel y rhiant a fy mab a oedd yn gwneud gwaith gyda nhw."*

Mae ymarferwyr yn ymwybodol o effaith y natur wledig ar allu plentyn i ymgysylltu â gwasanaethau. Roedd yn galonogol gweld bod yr holl ymatebwyr yn teimlo bod plant yn cael eu gweld mewn mannau a oedd yn ddiogel ac yn hawdd eu cyrraedd. Dywedodd un plentyn eu bod yn ffafrio cael eu gweld yn yr ysgol neu gartref, a bod hynny wedi'i drefnu. Roedd plentyn arall yn gwerthfawrogi bod eu barn wedi'i chlywed wrth drefnu lleoliad penodol ar gyfer apwyntiadau:

> *"Roedd hwn yn lle diogel a'r lle gorau i fi gael cyfarfodydd."*

Byddai plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi hoffi cael deunyddiau i gyfoethogi eu gwaith gyda'r GCIA. At hynny, clywyd y dylai'r GCIA wella eglurder ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael ar ddiwedd datrysiad y tu allan i'r llys neu orchymyn llys y plentyn.

Fe wnaeth rhiant grynhoi:

> *"Byddai'n dda cael cyfeiriad cliriach at adnoddau/cymorth ar ddiwedd y cyfnod o weithio gyda'r GCIA."*

Roedd adborth plant a rhieni yn bositif o ran sgiliau'r gweithwyr, y gefnogaeth a gynigiwyd, a'r cyfleoedd i gwrdd mewn mannau a lleoedd diogel. Mae'n werth nodi bod un rhiant wedi tynnu sylw at yr angen am gyfeiriad a chymorth cliriach ar ddiwedd y cyfnod o weithio gyda'r GCIA, gan adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad bod cynlluniau ymadael a llwybrau i'r gwasanaeth ieuenctid yn faes i'w ddatblygu.

## Amrywiaeth

- Mae angen i'r bwrdd rheoli gefnogi'r GCIA i nodi ac i ddeall amrywiaeth ac anghymesuredd, gan gynnwys datblygu ymateb strategol clir. Mae angen ystyried meysydd allweddol fel adsefydlu a datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar sut caiff y strategaeth ei rhoi ar waith i gyflawni newid systemig ac i ddiwallu anghenion plant.
- Mae cynllun y GCIA yn cydnabod canlyniadau carcharu anghymesur ymhlith plant Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, ond nid oedd hyn wedi arwain at weithredu. Nid oedd y GCIA a'r bwrdd rheoli wedi cwblhau dadansoddiad dwfn i ddeall a dysgu wrth ffactorau sy'n gysylltiedig ag anghymesuredd.
- Byddai dadansoddiad manwl o anghenion strategol yn helpu'r bartneriaeth er mwyn teilwra gwasanaethau i ehangder ac ystod yr amrywiaeth o fewn y garfan GCI.
- Mae diffyg arbenigwyr ar secondiad ac adnoddau sgrinio yn arwain at ddull anghyson o nodi a dadansoddi anghenion plant nas diwallwyd.
- Mae staff a rheolwyr yn mynegi bod eu hanghenion amrywiaeth yn cael eu cefnogi gydag addasiadau yn cael eu gwneud i ddarparu i'w hamgylchiadau unigol. O'r wyth o wirfoddolwyr a nododd angen amrywiaeth yn ein harolygiad, dywedodd pawb yr ymatebwyd i'w hanghenion amrywiaeth yn 'dda iawn' neu'n 'weddol dda'.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cefnogi dau ymarferydd GCI i ymgymryd â gwersi Cymraeg. Canfu arolygwyr enghreifftiau o'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys enghraifft drawiadol o arfer adferol a wnaed gyda'r plentyn a'r dioddefwr yn Gymraeg. Serch hynny, mae cynllun y GCI yn nodi bod 45 y cant o drigolion Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg, y trydydd uchaf o ran siaradwyr Cymraeg o blith holl awdurdodau lleol Cymru, eto i gyd, nid yw'r GCIA yn dadansoddi data'n rheolaidd i olrhain a ellir diwallu anghenion y Gymraeg yn gyson.
- Mae ymarferwyr wedi cydnabod anghenion amrywiol plant mewn dau o'r naw datrysiad y tu allan i'r llys.
- Mae'r data sefydliadol a ddarparwyd gan y GCI yn dangos canran gynyddol yn nifer y merched a atgyfeiriwyd at baneli y tu allan i'r llys; fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i archwilio a'i weithredu.
- Mae'r GCIA yn cydnabod effaith y natur wledig o fewn y sir. Canfu arolygwyr fod ymarferwyr yn ymatebol yn eu hagweddau at weld plant o fewn eu hardal ac mewn mannau lle roeddent yn teimlo'n ddiogel. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud gwaith allgymorth, gan sicrhau bod plant sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn cael cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau.
- Yn unol â'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yn gynhwysfawr a cheir darpariaeth gref i blant.

## Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar dri achos cymunedol a reolwyd gan y GCI. Ni chafwyd digon o achosion a oedd yn bodloni meini prawf Arolygiaeth Prawf EF, o fewn yr amserlen a gwmpesir gan yr arolygiad, felly nid yw'r gwaith hwn wedi cael ei sgorio. Canfuwyd themâu tebyg yn y gwaith achos ar ôl y llys a thu allan i'r llys.

## Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar naw achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybudd amodol i berson ifanc, dau rybudd i berson ifanc a chwe datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn naw achos.

### 3.1. Asesiad

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Annigonol |

Mae ein sgôr[2] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r asesiad yn dadansoddi'r canlynol yn ddigonol: | % 'Ydy' |
|---|---|
| sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | 11% |
| sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **0%** |
| sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **0%** |

Roedd angen sylw sylweddol ar weithgarwch asesu y tu allan i'r llys i gefnogi ymataliad plant, eu diogelwch, a diogelwch eraill. Canfu arolygwyr ddiffygion yn y dadansoddiad o'r drosedd a gorddibyniaeth ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn eu hatgyfeiriadau. Ni chafodd gwybodaeth a gedwir gan asiantaethau perthnasol ei chasglu a'i defnyddio i greu darlun holistig o'r plentyn a'u hamgylchiadau, a oedd yn peri pryder arbennig, o ystyried diffyg mewnbwn amlasiantaethol ym mhanel gwneud penderfyniadau'r ganolfan.

Dim ond yn y lleiafrif o achosion y cafodd anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau unigol y plentyn eu hystyried, ac nid oedd yr asesiad yn rhoi digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd y plentyn. Lle gweithiodd yn dda, rhoddodd ymarferwyr ystyriaeth i ddewis iaith y plentyn, effaith y natur wledig, beth oedd yn bwysig i'r plentyn, a'u profiadau bywyd. Helpodd hyn i ddod â chryfderau'r plentyn i'r golwg. Mae deall profiad y plentyn a'i gynnwys mewn trafodaethau am ei gryfderau a'i ddiddordebau yn rhan hanfodol o hybu ymataliad yn y dyfodol, ac roedd hyn yn ddiffygiol yn y mwyafrif o achosion a arolygwyd.

Canfuom gred gynhenid yn y GCIA, ac ar draws y bartneriaeth, fod plant a atgyfeiriwyd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn ymgyflwyno â lefelau isel o anghenion a phryderon. Gall y persbectif hwn fod wedi cyfrannu at annigonolrwydd wrth asesu gweithgarwch i

[2] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel ym mhob un o’r achosion o ddatrysiadau y tu allan i’r llys a arolygwyd, ac roedd yn groes i rai o heriau, gwendidau a chymhlethdodau'r plant roedd y GCIA yn gweithio gyda nhw ar ddatrysiadau y tu allan i’r llys.

Canfu arolygwyr fod trothwyon lefelau diogelwch a lles yn canolbwyntio ar ddiogelwch corfforol uniongyrchol y plentyn, ac nid oedd yr asesiad yn dadansoddi lles a diogelwch emosiynol a seicolegol y plentyn. Ni chafodd effaith trawma, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd emosiynol a meddyliol, camfanteisio, a chamddefnyddio sylweddau eu hystyried yn rheolaidd. Canfuom enghreifftiau o blant a oedd wedi ymgysylltu’n ddiweddar â chynlluniau gofal a chymorth, ond ni ddefnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio dadansoddiad o bryderon diogelwch a llesiant. Yn yr un modd, ni archwiliwyd gwybodaeth am bresenoldeb gwael yn yr ysgol a gwaharddiadau cyfnod penodol er mwyn rhoi darlun holistig o’r hyn oedd yn digwydd ym mywyd y plentyn. Roedd y bylchau wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth o bob ffynhonnell berthnasol yn golygu nad oedd y cyd-destun, lle gallai niwed posib ddigwydd i'r plentyn yn y dyfodol, wedi’i gydnabod yn llawn, a thanbrisiwyd pryderon diogelwch a lles.

Roedd asesu gweithgarwch i gadw pobl yn ddiogel yn canolbwyntio ar yr ymddygiad atgyfeirio ac ni roddodd ystyriaeth i ddigwyddiadau blaenorol neu wybodaeth gan asiantaethau eraill. Canfu arolygwyr bwyslais ar niwed difrifol a oedd yn golygu nad oedd mathau eraill o ymddygiad niweidiol wedi'u nodi na'u dadansoddi. Arweiniodd hyn at ddealltwriaeth gyfyngedig o'r pryderon, y cyd-destun y gallai'r ymddygiad niweidiol ddigwydd ynddo, ei agosrwydd, a phwy fyddai mewn perygl. Aseswyd anghenion, dymuniadau a diogelwch y dioddefwr yn y lleiafrif o achosion, a chanfuom reolwyr achos yn ceisio cefnogi'r plentyn a’r rhai a niweidiwyd ar yr un pryd.

Cafwyd dealltwriaeth brin o'r gydberthynas rhwng risg a phryderon diogelwch. Er enghraifft, ni wnaeth gwybodaeth am blant yn cario cyllyll arwain at olwg holistig ar effaith bosib niwed ar eraill, a'r canlyniadau andwyol i ddioglewch y plentyn ei hun.

Nid oedd prosesau sicrhau ansawdd yn nodi diffygion wrth asesu gweithgarwch na’r ffaith bod dosbarthiadau risg a diogelwch yn cael eu tanbrisio. Roedd angen arolygiad brys ar brosesau sicrhau ansawdd i wella ansawdd asesiadau.

## 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Annigonol |

Mae ein sgôr[3] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw'r cynllunio yn canolbwyntio ar: | % 'Ydy' |
|---|---|
| gefnogi ymataliad y plentyn? | 33% |
| gadw'r plentyn yn ddiogel? | **0%** |
| gadw pobl eraill yn ddiogel? | **0%** |

Mae'r gwaith cynllunio i gefnogi anghenion ymataliad y plentyn yn ddigonol mewn tri o'r naw achos a arolygwyd. Lle gweithiodd hyn yn dda, roedd y cynllunio ar y cyd â'r plentyn a'u rhiant neu ofalwr, a lle cafwyd cysylltiad rhwng y rheolwr achos a'r ysgol, y gwasanaeth ieuenctid, a'r dioddefwr i ddyfeisio cynllun holistig. Serch hynny, digwyddodd hyn mewn nifer rhy fach o achosion, ac arweiniodd bresenoldeb plant a'u rhieni neu ofalwyr ym mhanel gwneud penderfyniadau'r ganolfan at weithgareddau cynllunio ystyrlon a holistig. Canfuom ddiffyg cynlluniau cyfeillgar i blant a dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau annatblygedig at hyrwyddo ymataliad. Nid oedd gwaith cynllunio a chynllunio i ymadael yn archwilio cyfleoedd i blant gael mynediad at ddarpariaeth gymunedol yn unrhyw un o'r naw achos a arolygwyd, gan arwain at gyfleoedd coll i blant gysylltu â'r gwasanaeth ieuenctid a'r ddarpariaeth atal sy'n eang, yn gyffredinol ac wedi'i dargedu.

Roedd y gwaith cynllunio i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel yn annigonol ym mhob achos a arolygwyd. Nid oedd panel gwneud penderfyniadau'r ganolfan y tu allan i'r llys yn cynnwys cynrychiolwyr addysg, iechyd na gwasanaethau plant, a gallai eu cynnwys fod wedi rhoi cyfle i wella'r cynllunio cydweithredol.

Roedd y ffaith bod yr asesiad a'r diffyg adnoddau sgrinio yn annigonol wedi effeithio ar y gwaith cynllunio. Nid oedd meysydd allweddol i gefnogi pryderon risg a diogelwch yn cael sylw, gan gynnwys perthnasoedd gyda chyfoedion a theulu, iechyd emosiynol a meddyliol, camfanteisio, a chamddefnyddio sylweddau.

Mewn dros hanner yr achosion a arolygwyd, cafodd anghenion a diogelwch dioddefwyr eu hanghofio. Roedd hyn yn cynnwys peidio â chydnabod risgiau parhaus i ddioddefwyr go iawn neu ddioddefwyr posib, a gwneud cynlluniau priodol i liniaru pryderon. Ni wnaethpwyd unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd hyn, ynghyd â thanbrisio'r dosbarthiadau risg a diogelwch, yn golygu nad oedd plant a oedd yn agored iawn i niwed a'r rheini a oedd yn risg i eraill, wedi'u nodi fel rhai a oedd angen dulliau amlasiantaethol a chawsant eu hatgyfeirio at fforwm aml-asiantaeth risg uchel y GCIA. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu ymarferwyr ac asiantaethau partner i fod yn ymatebol i amgylchiadau newidiol.

[3] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tab. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

## 3.3. Gweithredu a chyflawni

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Annigonol |

Mae ein sgôr[4] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| A yw cyflawni gwasanaethau yn cefnogi: | % 'Ydy' |
|---|---|
| ymataliad y plentyn? | 44% |
| diogelwch y plentyn? | **11%** |
| diogelwch pobl eraill? | **11%** |

Mae'r bylchau yn y trefniadau partneriaeth statudol a llwybrau annatblygedig i wasanaethau allweddol wedi effeithio ar ansawdd y gwaith a ddarperir i blant. Gwelsom fod cyfleoedd wedi'u colli i gynnwys gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion a gweithwyr iechyd ym mywydau plant. Pan wnaed atgyfeiriadau i wasanaethau eraill am gymorth, nid oedd y gwaith neu'r canlyniadau dilynol wastad yn glir.

Canfuom, pan oedd darpariaeth gwasanaethau i gefnogi ymataliad wedi'i wneud yn dda, ei fod wedi ystyried anghenion amrywiaeth plentyn, gan arwain at addasiadau i ymyriadau a dulliau ymgysylltu. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr achos yn ceisio meithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth mewn ffordd sensitif drwy ymgysylltu â phlant gyda'u datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn anffodus, digwyddodd hyn yn y lleiafrif o achosion, a chanfuom fod rhychwant cyfrifoldeb ymarferwyr wedi arwain at gyfleoedd prin i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant a dioddefwyr. Rhoddodd un o'r naw achos a arolygwyd ddigon o sylw i warchod dioddefwyr go iawn a dioddedfwyr posib. Roedd cynlluniau gwneud iawn a chyfiawnder adferol ar gael dim ond os oedd gan y rheolwyr achos y gallu i ddod o hyd i'r gweithgareddau eu hunain, eu cefnogi a'u cynnal, ac arweiniodd hyn at fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Roedd argaeledd prin adnoddau ac ymyriadau i ymgysylltu â phlant yn greadigol yn golygu bod sesiynau yn dueddol o ganolbwyntio ar hen ddulliau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Roedd dulliau o weithio gydag ymddygiadau rhywiol niweidiol wedi'u tan-ddatblygu, a waethygwyd gan yr oedi wrth gael mynediad at hyfforddiant arbenigol a phrinder adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd darparu gwasanaethau i gadw plant ac eraill yn ddiogel yn ddigonol mewn un o'r naw achos a arolygwyd. Nid oedd rôl y GCIA wrth ddarparu gwasanaethau i reoli'r risgiau a gyflwynir i'r plentyn ac oddi wrth y plentyn wedi'i ddeall yn glir gan y gwasanaeth na'r bartneriaeth ehangach. Ni chafodd gwybodaeth allweddol a oedd yn dangos newidiadau arwyddocaol ym mywyd plentyn ei rhannu'n brydlon, a chafwyd diffyg ymateb cydlynol gan y bartneriaeth. Canfu arolygwyr enghreifftiau o blant a oedd yn wynebu dirywiad yn eu hiechyd emosiynol a meddyliol nad oedd yn arwain at ddarpariaeth ymatebol gan y GCIA, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau plant, neu weithwyr cymorth mewn ysgolion. Canfuom hefyd enghreifftiau o bryderon cynyddol ynglŷn â thrais ac ymddygiad ymosodol a

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tab. Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.

fyddai wedi elwa o gael fforwm aml-asiantaeth dan arweiniad y GCI i ganolbwyntio ar gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel.

Canfu arolygwyr fod goruchwyliaeth rheolwyr yn annigonol ym mhob achos perthnasol. Nid oedd rheolwyr yn archwilio'r holl waith achos yn rheolaidd, ac roedd yr oruchwyliaeth yn cynnwys diweddariadau a thrafodaethau cyffredinol am achosion, gan arwain at gamau gweithredu cyfyngedig.

## 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Annigonol |

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Mae'r polisi a'r weithdrefn y tu allan i'r llys wedi'u harolygu i gynnwys canllawiau cenedlaethol. Roedd y polisi yn gwahaniaethu rhwng datrysiadau ffurfiol ac anffurfiol y tu allan i'r llys.
- Roedd rolau a chyfrifoldebau rheolwr y GCI, rheolwr achos, swyddog yr heddlu y GCI, Heddlu Dyfed Powys, gweithiwr dioddefwyr, a chymorth busnes wedi'u dogfennu'n glir.
- Cafodd ystyriaethau am anghenion unigol ac amrywiaeth y plant eu hystyried yn y polisi.
- Roedd yr heddlu yn hysbysu'r GCIA pan fyddai pobl ifanc yn cael eu harestio a datrysiadau adferol ar y stryd i bobl ifanc.
- Cyflwynwyd erlyniad wedi'i ohirio drwy ganlyniad 22 ac roedd ar gael i blant.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae angen adolygiad sylfaenol ar brosesau a darpariaeth rheoli risg a diogelwch. Canfu arolygwyr ddiffygion sylweddol mewn arferion y tu allan i'r llys ac asesu, cynllunio a darparu annigonol i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel. Roedd angen sylw brys i ddatblygu prosesau sicrhau ansawdd i wella ansawdd y gwaith achos.
- Mae angen adolygu'r broses o roi adnoddau i gyfrifoldebau y tu allan i'r llys. Canfu arolygwyr safbwynt wedi dyddio o ran datrysiadau y tu allan i'r llys fel rhai 'lefel isel' a diffyg cymhlethdod. Gwelsom fod y fframwaith yn canolbwyntio ar y broses a'r datrysiadau yn hytrach nag anghenion unigol y plentyn.
- Nid oedd rolau a chyfrifoldebau'r GCIA mewn perthynas â diogelwch a lles plant wedi'u cwmpasu'n glir yn y polisi. Canfu arolygwyr ddealltwriaeth anghyson o rôl y GCIA wrth gadw plant yn ddiogel.
- Nid oedd y polisi a'r weithdrefn a grëwyd gan y GCIA wedi cael mewnbwn yr heddlu, na gofal cymdeithasol plant, addysg na gwasanaethau iechyd. Nid oedd y polisi wedi'i gadarnhau gan y bwrdd rheoli.
- Roedd goruchwyliaeth strategol a chraffu annibynnol yn absennol mewn gwaith y tu allan i'r llys. Nid oedd y bwrdd rheoli yn cael ei ddiweddaru ar ddata, polisïau, neu arferion y tu allan i'r llys. Nid oedd mecanweithiau goruchwyliaeth yn rhoi sicrwydd bod datrysiadau'n deg, yn gyson, yn brydon, ac yn effeithiol.
- Nid oedd panel gwneud penderfyniadau'r ganolfan yn cynnwys cynrychiolaeth allweddol o ofal cymdeithasol plant, addysg, a gwasanaethau iechyd. Nid oedd

unrhyw ddarpariaeth i asiantaethau cysylltiedig fynychu neu gyfrannu at y panel gwneud penderfyniadau.

- Roedd disgwyl i blant a'u rhieni neu ofalwyr fynychu holl baneli'r ganolfan. Nid oedd yn glir sut yr ystyriwyd eu hanghenion unigol wrth eu paratoi ar gyfer y panel a'u cefnogi i ddeall y canlyniad. Darllenwyd y datganiadau gan ddioddefwyr i'r plentyn a'u rhiant neu ofalwr fel rhan o'r fforwm gwneud penderfyniadau, ond ni chafodd yr effaith ar y plentyn a diogelwch y dioddefwr eu hystyried na'u gwerthuso.
- Roedd ymyriadau a oedd yn seiliedig ar gryfderau yn brin, a chanfu arolygwyr gyfleoedd coll i blant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys gael mynediad at y ddarpariaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan y gwasanaeth ieuenctid. Roedd angen i'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys ddogfennu'r llwybrau rhwng y GCI a'r gwasanaeth ieuenctid.
- Roedd rhychwant eang o gyfrifoldebau a chapasiti cyfyngedig yn golygu bod sesiynau adferol a sesiynau gwneud iawn ond ar gael i blant mewn achosion lle roedd y dioddefwr wedi gofyn i waith penodol gael ei wneud.
- Roedd angen datblygu, monitro a gwerthuso i ddefnyddio Canlyniad 22.
- Nid oedd plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw werthusiad o'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys.

# 4.1. Adsefydlu

### 4.1. Polisi a darpariaeth adsefydlu

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth adsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. | Heb gael sgôr |

Rydym wedi arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith adsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Nid ydym wedi rhoi sgôr i'r safon hon oherwydd nad oedd unrhyw achosion adsefydlu o fewn yr amserlen arolygu.

**Cryfderau:**

- Mae'r polisi a'r gweithdrefnau adsefydlu cyfredol wedi'u gwreiddio mewn arferion cyfredol, a welir gan y cysylltiadau i egwyddorion adsefydlu adeiladol. Mae rolau a chyfrifoldebau'r GCIA wrth gefnogi plant a ddedfrydwyd i'r ddalfa wedi'u dogfennu'n glir.
- Fe wnaeth y polisi gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau unigoledig i blant, er mwyn galluogi newid hunaniaeth bositif.
- Cyflwynwyd hyfforddiant adsefydlu adeiladol yn 2022 a chafodd plant a ddedfrydwyd i'r ddalfa eu clustnodi i uwch ymarferwyr profiadol neu reolwyr achos.

**Meysydd i'w gwella:**

- Crëwyd y polisi adsefydlu yn annibynnol ar y bartneriaeth ac nid yw wedi'i gadarnhau gan y bwrdd rheoli. Ni wnaeth hyn hyrwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu.
- Er ein bod yn hyderus y byddai staff y GCIA yn gweithio gyda sefydliadau carchar i gefnogi plant gorau y gallent, nid oedd diffyg partneriaeth weithredol a strategol effeithiol yn ffafriol i flaenoriaethu anghenion plant a oedd yn paratoi i adael y ddalfa.
- Nid oedd gan y bwrdd oruchwyliaeth o'r gwaith adsefydlu, ac arweiniodd hyn at gyfleoedd coll i ddysgu wrth brofiadau plant a ddedfrydwyd i'r ddalfa. Yn fwy diweddar, roedd dau blentyn a gafodd eu dedfrydu i'r ddalfa o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, ac nid oedd hyn wedi arwain at ddadansoddiad dwfn i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig ag anghymesuredd.
- Nid oedd unrhyw gyfeiriad penodol yn y polisi at ddulliau a fyddai'n lleihau anghymesuredd.
- Nid oedd polisïau yn manylu ar sut byddai'r bartneriaeth yn diwallu anghenion plant a oedd yn siarad Cymraeg mewn sefydliadau carchar y tu allan i Gymru.
- Nid oedd gwaith gyda dioddefwyr yn ddigon clir yn y polisi a'r gweithdrefnau.
- Nid oedd y polisi a'r gweithdrefnau yn sefydlu sut byddai'r bartneriaeth yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod yna agwedd holistig at gadw plant ac eraill yn ddiogel. Nid oedd unrhyw sôn am Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn y polisi.
- Nid oedd plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi bod yn rhan o'r adolygiad i'r polisi adsefydlu.

# Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

- data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI
- rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.